



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk


Adroddiad ar les pobl a chymunedau Cymru

Trwy'r Rhaglen Lywodraethu, rydym wedi nodi'n glir ein nod o wella lles pobl Cymru, gan sicrhau bod lles yn ganolog i bob polisi a chan sicrhau hefyd mai datblygu cynaliadwy yw ein prif egwyddor drefniadol.

Ym mhob penderfyniad a wnawn heddiw, rhaid ystyried ei effaith ar yfory: ar fywydau plant ein plant, yn ogystal ag ar genedlaethau heddiw. Bydd Bil Cenedlaethau'r Dyfodol (teitl dros dro) yn helpu i fynd i'r afael â'r heriau

sy'n wynebu Cymru mewn ffordd fwy cydgyssylltiedig ac integredig trwy sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus Cymru'n gweithio gyda'i gilydd yn well i gyflawni'r nodau a amlinellir yn y Bil.

Dyma ein hadroddiad ar les economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru, sy'n dwyn dangosyddion allweddol lles ynghyd, gan gynnwys gwybodaeth am ansawdd bywyd pobl a chymunedau yng Nghymru.



Sut rydyn ni'n diffinio lles?

Mae ein dangosyddion lles yn seiliedig ar fesurau presennol y Rhaglen Lywodraethu ac wedi'u rhannu'n ddeg maes lles, sy'n adlewyrchu gwahanol agweddau ar les sy'n effeithio ar bobl Cymru. Fel y dangosir, mae lles yn cyfateb i dair colofn datblygu cynaliadwy: amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd; gyda'r meysydd mwyaf perthnasol wedi'u nodi o dan y golofn briodol. Mae cynaliadwyedd, fel ein hegwyddor drefniadol ganolog, yn berthnasol i'r tair colofn ac mae pob maes a cholofn yn dylanwadu ar ei gilydd.

Lles unigolion a'n cysylltiadau

Mae lles unigolion yn mesur aresiad cyffredinol pobl o'u lles eu hunain, sy'n cynnwys eu teimladau a'u safbwyntiau yn ogystal â faint o ystyr a diben y maent yn eu priodoli i'r gweithgareddau a wnânt yn eu bywydau, ynghyd â'u cysylltiadau ag eraill. Cydnabyddir ei bod hi'n bwysig mesur lles unigolion er mwyn cael darlun llawn o ansawdd bywyd pobl.

Cymru: Lle rydyn ni arni?

Mae'r rhan fwyaf o bobl yng Nghymru'n fodlon iawn â'u lles personol – hynny yw, maent yn rhoi sgôr o 8 allan o 10 o leiaf am ddangosyddion megis boddhad â bywyd a bod y pethau a wnânt yn werth chweil. Fodd bynnag, mae anghenion sylfaenol yn bwysig, a heb sicrwydd, cysur, diogelwch a phartneriaethau, mae'n llai tebygol y bydd gan bobl lefelau cymedrol o les hyd yn oed.

Dyma'r canlyniadau pwysicaf yn 2013-14 ar gyfer pedwar prif fesur lles personol:

- sgôr gyfartalog ar gyfer boddhad bywyd – 7.7 allan o 10;
- sgôr gyfartalog bod y pethau a wnânt mewn bywyd yn werth chweil – 8.0 allan o 10;
- y ganran oedd yn teimlo'n hapus drwy gydol/gyfran helaeth y pedair wythnos ddiwethaf – 77 y cant;
- y ganran oedd yn teimlo'n nerfus iawn drwy gydol/gyfran helaeth y pedair wythnos ddiwethaf – 7 y cant.

Mae yna amryw o nodweddion personol pwysig sy'n effeithio ar wahaniaethau yn nheimladau pobl ynghylch eu lles:

- **Oedran:** Roedd lefelau lles ar eu uchaf ymhlith oedolion ifanc ac oedolion hŷn, ac ar eu hisaf ymhlith pobl canol oed. Yn rhyngwladol, mae'r gostyngiad canol oed mewn lles yn nodwedd cyffredin.
- **Rhyw:** Mae menywod yn fwy tebygol o wyro tua dau ben eithaf y sbectrwwm, yn yr ystyr eu bod yn fwy tebygol o fod â lefelau lles isel neu fel arall, lefelau lles uchel. Nid yw'r patrwm hwn yn glir wrth gymharu lefelau cyfartalog.
- **Iechyd:** Roedd pobl a oedd yn nodi bod eu hiechyd cyffredinol yn wael neu'n wael iawn yn fwy tebygol na'r rhai a oedd yn nodi bod eu hiechyd cyffredinol yn dda iawn o fod â lefelau lles isel ar draws y pedwar dangosydd craidd. Mae iechyd a hunangofnodir yn fynegiant mwy goddrychol o iechyd cyffredinol nag o gyflwr iechyd. Mae hyn yn awgrymu y gall y ffordd mae pobl yn teimlo am eu hiechyd fod cyn bwysiced – os nad yn bwysicach - i les na salwch gwirioneddol.
- **Pwysau ariannol a gwaith:** Mae cysylltiad cryf rhwng diweithdra, yn enwedig y flwyddyn gyntaf o fod yn ddi-waith, a boddhad isel â bywyd a diffyg teimlad bod pethau bywyd yn werth chweil. Mae pobl sydd mewn dyled ddifrifol yn fwy tebygol o fod â lefelau lles personol isel ac yn llai tebygol o fod â lefelau lles uchel.

Mae cysylltiadau personol yn elfen bwysig o les hefyd, gan gynnwys a yw pobl yn teimlo eu bod yn perthyn i'w hardal ac yn ymddiried yn y bobl sy'n byw yn eu cymdogaeth. Ar gyfartaledd, rhoddodd pobl sgôr o 8.6 allan o 10 am eu cysylltiadau personol. O dan y sgôr gyfartalog hon, roedd amrywiad o ran y graddau roedd pobl yn teimlo eu bod yn perthyn i'w cymdogaeth. Rhoddodd pobl a oedd yn cytuno'n gryf bod y bobl yn eu cymdogaeth yn trin ei gilydd â pharch ac yn ystyriol sgôr gyfartalog o 9.0 ond gwnaeth y rhai a oedd yn anghytuno'n gryf roi sgôr gyfartalog o 8.0.

Yr amgylchedd naturiol

Mae'r amgylchedd naturiol yn adlewyrchu meysydd megis y newid yn yr hinsawdd, yr amgylchedd a'r effaith mae ein gweithgareddau'n ei chael ar yr amgylchedd byd-eang.

Cymru: Lle rydyn ni arni?

Mae'r darlun cyffredinol ar gyfer yr amgylchedd naturiol yng Nghymru yn gadarnhaol ar y cyfan. Mae lefelau allyriadau nwyon tŷ gwydr wedi gostwng, mae cyfanswm y trydan a gynhyrchir o ffynonellau adnewyddadwy wedi cynyddu'n raddol ac mae canran yr afonydd, llynnoedd, aberoedd a dyfroedd arfordirol yng Nghymru sy'n derbyn sgôr 'da' neu well wedi cynyddu ers 2009. Mae dros draean y rhai sydd mewn perygl o gael llifogydd yn cael eu hamddiffyn rhag llifogydd mewn rhyw ffordd, ond mae hon yn dal i fod yn problem sy'n gallu cael effaith uniongyrchol ar les pobl Cymru.

Lle rydyn ni'n byw

Mae lle rydyn ni'n byw yn golygu cartref unigolyn, ei amgylchedd lleol a'r math o gymuned y mae'n byw ynddi.

Cymru: Lle rydyn ni arni?

Mae gwelliannau wedi'u gwneud yn ein hamgylchedd lleol a'n cymunedau, gan wneud Cymru'n lle mwy diogel i fyw ynddo. Dros y 10 mlynedd diwethaf, mae troseddau a nifer y bobl sy'n cael eu lladd a'u hanafu mewn tanau ac ar ein ffyrdd wedi gostwng. Mae'r darlun o safbwynt canfyddiadau am droseddu yn anoddach ei fesur. Fodd bynnag, mae tueddiadau yn Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr ac yn y data ar droseddau a gofnodir gan yr Heddlu yn dangos bod nifer y troseddau'n gostwng. Mae hyn yn bwysig gan fod y ffordd mae pobl yn teimlo yn cael effaith uniongyrchol ar eu hymdeimlad cyffredinol o les.

Mae cydlyniant cymdeithasol lleol a diogelwch canfyddedig yn yr ardal leol yn rhagfynygyddion lles pwysig. Mae gan ffactorau'n ymwneud ag ardal gymdeithasol – megis ymdeimlad o berthyn a chanfyddiadau am gymdogion – gysylltiad agos ag asesiadau pobl o ddiogelwch yn yr ardal leol. Mae 85 y cant o bobl Cymru'n teimlo eu bod yn perthyn i'r ardal y maent yn byw ynddi. Dywedodd 79 y cant eu bod yn teimlo'n ddiogel wrth gerdded yn eu hardal ar ôl iddi dywyllu. Roedd hyn yn amrywio yn ôl lefel yr amddifadedd, gyda 68 y cant o'r bobl sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn teimlo'n ddiogel yn cerdded yn eu hardal ar ôl iddi dywyllu o'u cymharu ag 85 y cant o'r bobl sy'n byw yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig. Yn 2013-14, roedd 97 y cant o oedolion yn byw o fewn deng munud ar droed i fan gwyrdd neu las, sy'n ffactor sy'n cyfrannu at ymdeimlad o les.

Mae'r amgylchedd cartref yn bwysig i ymdeimlad o les ac mae gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud dros y blynyddoedd diwethaf o ran cyfran y tai sy'n cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru. Mae'r gwaith o roi'r safon ar waith yn parhau, gydag oddeutu traean y tai cymdeithasol yng Nghymru wedi methu â chyrraedd y safon honno hyd yma.

Beth rydyn ni'n ei wneud

Mae'r hyn rydyn ni'n ei wneud yn golygu gwaith a gweithgareddau hamdden pobl a'r cydbwysedd rhyngddynt.

Cymru: Lle rydyn ni arni?

Mae Cymru wedi cau'r bwlch mewn cyfraddau cyflogaeth o'i chymharu â'r DU ac yn ddiweddar, mae'r gyfradd gyflogaeth wedi bod yng nghyffiniau'r 2 bwynt canran o dan gyfradd y DU. Fodd bynnag, mae'r dirywiad economaidd wedi effeithio mwy ar bobl ifanc a gwelir hynny yn y cynnydd mawr ar ôl 2008 yng nghyfran y bobl ifanc 19 i 24 oed nad oeddynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Er hynny, mae arwyddion calonogol mewn data arolygon mwy diweddar yn awgrymu bod y gyfradd yn dechrau gostwng, ochr yn ochr â gostyngiadau cyflymach mewn lefelau diweithdra ymhlith ieuenctid yn ystod y flwyddyn na gweddill y DU. Mae'r mater yn llai aciwt ar gyfer pobl

ifanc 16 i 18 oed ac ni welwyd yr un cynnydd mewn nifer yn ystod y dirywiad economaidd. Fodd bynnag, mae'r gyfradd wedi parhau'n gyson ar 10-13 y cant, waeth beth yw'r sefyllfa economaidd. Yn 2013-14, y sgôr gyfartalog a roddodd pobl am eu boddhad â'u swydd bresennol oedd 7.5 (allan o 10). Roedd hyn yn amrywio yn ôl statws economaidd-gymdeithasol, o 7.1 ar gyfer y rhai mewn swyddi cyffredin i 7.8 ar gyfer y rhai mewn swyddi rheoli a phroffesiynol uwch.

Mae rhai arwyddion calonogol yn nifer y bobl sy'n cymryd rhan yn y celfyddydau dros y blynyddoedd diwethaf. Bu cynnydd hefyd yn nifer y plant oedran ysgol ac oedolion sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau hamdden egnïol. Pobl 65 oed a hŷn oedd fwyaf bodlon â faint o amser hamdden oedd ganddynt, a phobl 25 i 44 oed oedd leiaf bodlon, efallai yn rhannol oherwydd bod ganddynt fwy o ymrwymïadau gwaith a theulu.

Iechyd

Cydnabyddir bod iechyd unigolyn, gan gynnwys ei iechyd corfforol a meddyliol, yn elfen bwysig o'i les.

Cymru: Lle rydyn ni arni?

Wrth edrych ar iechyd y genedl, gwelwn batrwm cymysg. Er bod disgwyliad oes yn cynyddu, mae'r bwlch rhwng y bobl fwyaf a lleiaf difreintiedig wedi aros fwy neu lai yr un fath. Mae'r cynnydd mewn lefelau gordewdra yn peri pryder mawr, a bydd yn broblem i'r dyfodol os na wnawn fynd i'r afael â hi. Mae'r bwlch rhwng y bobl fwyaf a lleiaf difreintiedig yn fwy fyth o ran disgwyliad oes iach neu ddisgwyliad oes heb anabledd. Yn ogystal, mae yna gysylltiad cryf rhwng iechyd meddwl a lles cyffredinol. Daw'r data diweddaraf ynghylch lles meddyliol o 2012-13 lle cafwyd sgôr gyfartalog o 8.6 (allan o 10), ond roedd hyn yn amrywio yn ôl oedran, gyda phobl ifanc iawn a phobl hŷn yn rhoi sgoriau uwch na'r rhai o oedran gweithio. Yn ogystal, roedd bod allan o waith yn gysylltiedig â lefelau lles meddyliol is o lawer. Mae pwysau geni isel yn gysylltiedig â phroblemau iechyd yn ddiweddarach mewn bywyd ond rydym wedi gweld gwelliannau dros

y blynyddoedd diwethaf. Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos bod y sefyllfa wedi gwaethygu ychydig. Er hynny, mae'r niferoedd yn fach ac yn agored i amrywiadau

Addysg a sgiliau

Mae'r adran hon yn ceisio adlewyrchu'r cyfalaf dynol yn y farchnad lafur a lefelau sgiliau a chyflawniad addysgol.

Cymru: Lle rydyn ni arni?

Mewn perthynas ag addysg a sgiliau, mae'r darlun yn gymysg ledled Cymru. Mae yna gynnydd yng nghyfran yr oedolion â chymwysterau Lefel 3 o leiaf. Mae cyrhaeddiad pobl ifanc 19 oed a chyfran y bobl sy'n parhau mewn addysg a hyfforddiant ar ôl ysgol wedi parhau i wella hefyd. Fodd bynnag, mae yna fylchau mawr o hyd yn lefel y cymwysterau rhwng pobl anabl a phobl nad ydynt yn anabl a rhwng rhai grwpiau ethnig. Er bod canlyniadau arholiadau wedi bod yn gwella a bod y bwch rhwng Cymru a Lloegr yn lleihau, mae profion rhyngwladol yn dangos bod plant ysgol yng Nghymru yn perfformio'n waeth mewn Mathemateg, Saesneg a Gwyddoniaeth na phlant ysgol yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae yna arwyddion calonogol ar gyfer y dyfodol, gyda chyfran uchel a chynyddol o blant yn cyflawni'r canlyniadau disgwyliedig fel rhan o'r Cyfnod Sylfaen

Llywodraethu

Mae llywodraethu'n cynnwys democratiaeth ac ymddiriedaeth mewn sefydliadau.

Cymru: Lle rydyn ni arni?

Er mwyn darparu darlun ystyrion o foddhad â llywodraeth, gofynnodd Arolwg Cenedlaethol Cymru amryw o gwestiynau a oedd wedi'u cynnwys yn Arolwg Cymdeithasol Ewrop hefyd. 5.8 oedd y lefel boddhad â llywodraeth Cymru yn yr Arolwg Cenedlaethol, o'i

gymharu â sgôr gyfartalog o 4.1 ar gyfer llywodraeth y DU a sgôr gyfartalog o 3.8 ledled Ewrop. O ran addysg wladol, roedd sgôr gyfartalog y DU (5.9) a'r sgôr gyfartalog ar draws gwledydd Ewrop (5.0) yn is o lawer na sgôr gyfartalog Arolwg Cenedlaethol Cymru (6.3). Ar gyfer iechyd, nid oedd yna wahaniaeth mawr rhwng sgôr gyfartalog y DU (6.3) a sgôr gyfartalog Cymru (6.2). Fodd bynnag, 4.9 oedd y sgôr gyfartalog ar draws gwledydd Ewrop, sy'n is o lawer na chanlyniadau'r DU a Chymru.

Cyllid personol

Mae cyllid personol yn ymwneud ag incwm a chyfoeth yr aelwyd, gan gynnwys ei ddosbarthiad a'i sefydlogrwydd.

Cymru: Lle rydyn ni arni?

Ar y cyfan, mae lefelau tlodi wedi gostwng yn gyffredinol dros y blynyddoedd diwethaf, er bod nifer y plant sydd mewn tlodi yn gymharol uchel o hyd. Mae cyfraddau tlodi parhaus ac aelwydydd heb waith yng Nghymru yn dal i fod yn uwch nag yn y DU, er bod y bwlch wedi cau rhywfaint dros y blynyddoedd diwethaf. Ar y cyfan, mae gan y rhai sy'n ei chael hi'n anodd talu biliau lefelau lles is ar draws yr holl brif fesurau, ond mae hyn yn arbennig o wir ymhlith y rhai sy'n wynebu'r problemau ariannol mwyaf difrifol. Yn 2013-14, roedd tua 50 y cant o bobl yn ei chael hi'n anodd talu biliau i ryw raddau, gyda 5 y cant ar ei hôl hi o ran talu eu biliau.

Yr economi

Mae'r economi yn fesur cyd-destunol pwysig ar gyfer lles.

Cymru: Lle rydyn ni arni?

Ar amryw o fesurau economaidd allweddol, mae Cymru wedi bod yn perfformio'n debyg i'r DU yn gyffredinol (ac eithrio Llundain a De-ddwyrain Lloegr) ac mae'r bwlch wedi cau mewn perthynas ag Incwm Gwario Crynswth Cartrefi.

Atodiad

Mae'r isod yn diffinio dangosyddion y Rhaglen Lywodraethu a'r wybodaeth ategol sy'n ffurfio'r dangosyddion lles ar gyfer Cymru.

Yr amgylchedd naturiol

- OU012 Lefel allyriadau nwyon tŷ gwyrdd
- OU013 Canran y trydan a gynhyrchir o ffynonellau adnewyddadwy
- OU089 Canran yr afonydd, llynnoedd ac arfordiroedd sydd â statws ecolegol da
- OU091 Nifer yr eiddo sydd mewn perygl o lifogydd

Lles unigolion a'n cysylltiadau

Canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru ar foddhad â bywyd a chysylltiadau

Lle rydyn ni'n byw

- OU051 Cyfradd troseddau a gofnodir
 - TR189 Mynediad i gefn gwlad a mannau gwyrdd
 - OU058 Tanau yng Nghymru
 - OU060 Cyfraddau anafiadau ffyrdd
 - OU047 Canran y tai cymdeithasol sy'n bodloni Safon Ansawdd Tai Cymru
 - OU052 Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yng Nghymru
- Canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru ar deimlo'n ddiogel a pherthyn i gymdogaeth

Beth rydyn ni'n ei wneud

- OU004 Cyfradd cyflogaeth
 - OU097 Cymryd rhan mewn chwaraeon neu weithgareddau hamdden egniol
 - OU093 Cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol
 - OU006(a) Canran y bobl ifanc 16 i 18 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET)
 - OU006(b) Canran y bobl 19 i 24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET)
- Canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru ar foddhad mewn swydd ac amser hamdden

Iechyd

- OU031 Data ar fodlonrwydd gyda gwasanaethau iechyd
 - OU032 Bwlch mewn disgwyliad oes rhwng y rhai mwyaf a lleiaf difreintiedig
 - OU033 Gordewdra yng Nghymru
 - OU034 Canran yr oedolion sy'n ysmegu
 - OU035 Canran yr oedolion sy'n nodi eu bod yn yfed mwy na'r hyn a argymhellir
 - OU036(a) Canran y genedigaethau byw sy'n pwysu llai na 2500g
- Adroddiad blynyddol y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar ddisgwyliad oes
- Canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru ar foddhad gydag iechyd meddwl

Addysg a sgiliau

- OU061(d) Canran y bobl heb unrhyw gymwysterau ffurfiol – yn ôl rhyw, ethnigrwydd ac anabledd
 - OU018 Sgôr y Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA)
 - OU020 Canlyniadau cyfnod allweddol 4 ar gyfer plant 15 oed
 - OU017 Canran y plant sy'n cyflawni'r lefel ddysgu ddisgwyliedig neu uwch ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen
 - OU022 Cyrhaeddiad pobl ifanc 19 oed
 - OU005(b) Canran yr oedolion o oedran gweithio sydd â dau gymhwyster Safon Uwch neu gyfwerth, neu brentisiaeth, ac uwch
- TR046 Cyfraddau aros-ymlaen ôl-16 (gan gynnwys ysgol, AB a hyfforddiant)

Llywodraethu

Canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru ar fodlonrwydd â Llywodraeth Cymru, Iechyd ac Addysg yng Nghymru

Cyllid personol

- OU064 Prif Fesurau Tlodi
 - OU067 Aelwydydd heb waith yng Nghymru
 - OU069 Canran yr Aelwydydd sy'n byw mewn tlodi tanwydd
- Canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru ar y gallu i reoli biliau

Yr economi

- OU064 Incwm Gwario Crynswth Cartrefi (GDHI) y pen
- OU002 Prif Incwm y pen
- OU003 Gwerth Ychwanegol Crynswth (GVA)

I gael mwy o wybodaeth am ddangosyddion y Rhaglen Lywodraethu, ewch i:

<http://wales.gov.uk/about/programmeforgov/>

I weld gwybodaeth ategol Arolwg Cenedlaethol Cymru, ewch i:

<http://wales.gov.uk/statistics-and-research/nationals-survey/>

I weld gwybodaeth ategol y Swyddfa Ystadegau Gwladol am ddisgwyliad oes, ewch i:

<http://wales.gov.uk/statistics-and-research/life-expectancy/>